



## CEFNDIR

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydnabod y rôl allweddol mae gofalwyr yn ei chwarae yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen iddynt gael eu gwerthfawrogi am y cymorth maen nhw'n ei ddarparu.

Mae hyn hefyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n deddfu ar gyfer rhagor o hawliau i ofalwyr ac sy'n symleiddio a chyfuno'r gyfraith, gan roi hawliau cyfartal iddynt am y tro cyntaf â'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bartneriaeth wedi llunio strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran drwy eu cyswllt gyda gwasanaethau ac mae'n seiliedig ar egwyddorion y model Triongl Gofal a ddatblygwyd yn wreiddiol fel canllaw i arfer gorau mewn gofal iechyd meddwl yn Lloegr.

## YR HYN MAE GOFALWYR WEDI EI DDWEUD WRTHYM NI

Wrth lunio'r strategaeth gyda phartneriaid, fe wnaethom ganolbwyntio ar edrych trwy lygaid gofalwyr i ddeall beth sy'n bwysig iddynt a beth fydd yn cyfrannu at les ac yn gwella eu hamgylchiadau. Mae partneriaid wedi siarad â gofalwyr am beth sy'n eu helpu i fod yn ofalwr, i barhau i fod yn ofalwr ac i fyw eu bywyd y ffordd maent am ei fyw.

Mae gofalwyr o bob oed wedi dweud wrthym fod cefnogaeth ddibynadwy o ansawdd da i'r unigolyn sy'n cael gofal o bwysigrwydd mawr ac mae'n cyfrannu at eu lles fel gofalwyr. Maent hefyd wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r ystod o gefnogaeth a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector. Yn bwysig hefyd, maent wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi bod rhywun yn gwranddo arnynt, cael eu cydnabod, eu parchu a'u clywed gan bobl sy'n gyfrifol am ddylunio a darparu

gwasanaethau iddynt a'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano.

## GWELEDIGAETH

Mae gwranddo ar ofalwyr wedi ein galluogi i gydweithio fel partneriaid i gynhyrchu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru, sef:

- Meddwl am ofalwyr
- Cynnwys gofalwyr o bob grŵp a chymuned mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a chyd gynhyrchu gwasanaethau o amgylch y gofalwr

Mae gweledigaeth partneriaid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi arwain at ddatblygu a chyd-gynhyrchu'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymedig i'w cyflawni.

## Y CYNNIG I OFALWYR

- Gofynnir am farn a gwybodaeth gofalwyr, a chaiff ei rannu, ei ddefnyddio a'i ddiweddarau'n rheolaidd wrth i gynlluniau gofal a strategaethau cyffredinol gael eu cynhyrchu ar y cyd.
- Mae staff angen gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i fod yn ymwybodol o ofalwyr
- Gofalwyr wedi'u nodi yn gyswllt cyntaf
- Polisi a phrotocol ymarfer ar waith
- Swyddi diffiniedig sydd â chyfrifoldeb am ofalwyr ar waith
- Mae ystod o wasanaethau cynnal i ofalwyr ar gael

CYSYLLTU:

**Bethan Jones Edwards,**  
Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol

Ffon: 07920535974 / 01824 712432

Ebost : [bethan.m.jonesedwards@sirddinbych.gov.uk](mailto:bethan.m.jonesedwards@sirddinbych.gov.uk)

Gwefan:

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gofalwyr/>